# Adroddiad Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol

## Ionawr 2019 - Rhagfyr 2019

## Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd

1. Aelodaeth y Grŵp a deiliaid swyddi

**Cadeirydd – Mark Isherwood AC**

**Enwau'r Aelodau Cynulliad eraill**
**Siân Gwenllian AC**
**Lynne Neagle AC**
**Michelle Brown AC**

**Ysgrifennydd:**

**Zoe Richards, Anabledd Dysgu Cymru**
**41 Lambourne Crescent**
**Parc Busnes Caerdydd**
**Caerdydd CF14 5GG**

**Aelodau:**
**Rhian Davies, Anabledd Cymru**
**Louise McGrath, Cyngor Cymru i Bobl Fyddar**
**Owen Williams, Cyngor Cymru i'r Deillion**
**Sara Moseley, Mind Cymru**

2. **Cyfarfodydd blaenorol y Grŵp ers y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf**

## Cyfarfod 1.

**Cofnodion y**
**Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd**
**Dydd Gwener 11 Ionawr 2019, Prifysgol Glyndŵr,**
**Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam, LL11 2AW**

**Yn bresennol:** Carol Gardener, Jo Woodward, Tom Hall, Mark Davies, Eric Owen, Sorrel Taylor, Maureen Lee, Sharon O'Connor, Chris Roberts, Jayne Goodrick, Paul Johnson, Lynne Jones, Lynne Davies, Nathan Davies, Sandra Morgan, Bill Fawcett, Vince West, Laura Seddon, Lisa Pollard, Simon Green, Michelle Brown AC, Eluned Plack, gofalwr Eluned, Jacqui Hurst, Kathryn Shaw, Brian Harrison, Rhian Davies, Martyn Jones, Zoe Richards, Mark Isherwood AC, Gareth Davies, Rebecca Phillips.

**Ymddiheuriadau**:Llyr Gruffydd AC, Jan Thomas, Helen Mary Jones AC, Rob Williams, Kathryn Jellings, Andrea Wayman, Stephen Ben Morris, Louise (WCD), Owen Williams, Glenn Page.

**1. Croeso a chyflwyniadau**
Croesawodd Mark Isherwood AC bawb i'r cyfarfod.

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf.**
Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir.

**3. Cyflwyniadau:**

**Rhian Davies - Fframwaith Drafft ar gyfer Gweithredu ar Anabledd**

Rhoddodd Rhian drosolwg o Fframwaith Drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer Gweithredu ar Anabledd. Lluniwyd y ddogfen yn dilyn adolygiad o'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol, a luniwyd yn 2013 i ddarparu dull strategol ar gyfer byw'n annibynnol ledled Cymru ac i hyrwyddo model cymdeithasol anabledd.

Mae Anabledd Cymru yn credu'n gryf y dylai'r Fframwaith Gweithredu ar Anabledd gael ei danategu gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Gweithiodd Anabledd Cymru gyda'i bartneriaid yn yr Alban a Gogledd Iwerddon i greu maniffesto ar gyfer byw'n annibynnol a nododd chwe galwad i weithredu:

1. Gwell mynediad at wybodaeth, cyngor, eiriolaeth annibynnol a gwasanaethau cymorth i gymheiriaid.
2. Sicrhau bod tai hygyrch a thai â chymorth ar gael i fodloni gofynion unigolion.
3. Amrywiaeth gynhwysfawr o opsiynau a rheolaeth a dewisiadau gwirioneddol o ran sut mae gofal cymdeithasol a chefnogaeth yn cael eu darparu.
4. Gwell mynediad i dechnoleg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
5. System drafnidiaeth ddi-rwystr sy'n cynnwys pob math o drafnidiaeth.
6. Galluogi mynediad, cyfranogiad a chynhwysiant diwylliannol ac economaidd-gymdeithasol pob person anabl.

Cafwyd cytundeb gweinidogol i adolygu'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol, dair blynedd yn ddiweddarach. Arweiniodd hyn at ail-ymgynnull y grŵp

llywio Byw'n Annibynnol, sy’n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau anabledd ledled Cymru, dan gadeiryddiaeth Rhian. Myfyriodd y grŵp ar yr hyn sydd wedi’i gyflawni ers 2013. Er bod cyflwyno'r Fframwaith yn torri tir newydd, roeddent yn cydnabod bod y cynnydd ar lawr gwlad yn araf iawn ac nad oedd y polisi cenedlaethol a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru wedi arwain at weithredu yn lleol. Prin oedd y dystiolaeth ynghylch newid diwylliant, yn enwedig gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol o ran mabwysiadu dull sy’n fwy seiliedig ar hawliau pobl anabl ac wrth fynd i'r afael â rhwystrau i fyw'n annibynnol.

Cafodd hyn ei gymeradwyo yn 2017 yn ystod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru. Yr adborth cyffredinol oedd mai ychydig iawn oedd wedi newid ym mywydau llawer o bobl anabl a’u bod wedi gwaethygu hyd yn oed, a oedd hefyd yn un o ganfyddiadau allweddol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Roedd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yng Ngenefa yn feirniadol iawn o Lywodraeth y DU yn yr ystyr eu bod wedi cymryd cam yn ôl yn eu polisïau lleol.

Dyhead y grŵp llywio yw i’r fersiwn ddiwygiedig fod yn llawer cryfach o ran Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Dylai'r Confensiwn fod wrth wraidd y Fframwaith newydd, a dylai ddangos ymrwymiad cryfach i weithredu model cymdeithasol anabledd a chamau gweithredu mwy cadarn o ran sut mae pobl yn deall hynny.

Dywedodd Rhian fod y grŵp llywio wedi gwneud penderfyniad strategol i'w alinio â chynllun strategol Llywodraeth Cymru ei hun, sef 'Ffyniant i Bawb', sydd â phedair thema allweddol:

1. Ffyniannus a diogel
2. Iach ac egnïol
3. Uchelgais a dysgu
4. Unedig a chysylltiedig

Roedd y grŵp llywio o'r farn y dylid cael dwy ddogfen. Byddai’r brif ddogfen yn nodi'r ymrwymiadau a'r egwyddorion allweddol y dylai Llywodraeth Cymru gadw atynt, ynghyd â chynllun gweithredu ar wahân y gellid ei ddiweddaru a'i fonitro'n rheolaidd gyda manylion mwy penodol ynghylch yr hyn y byddai adrannau Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn wahanol o ran cyflawni.

Mae'r cynllun gweithredu, sy’n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, yn cysylltu'n agosach ag erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig. Er mwyn llunio ymateb i'r ymgynghoriad, cynhaliodd Anabledd Cymru ddau ddigwyddiad ynghyd ag arolwg ar-lein i gasglu barn pobl anabl. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymateb yw dydd Gwener 18 Ionawr, ond efallai y bydd estyniad. Ychwanegodd Rhian fod Alison Tarrant o Brifysgol Caerdydd wedi cynhyrchu papur diddorol sy’n edrych ar bolisi byw'n annibynnol. Cafodd y papur ei ddosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod. Mae’r

papur yn beirniadu’r Fframwaith ar gyfer Gweithredu ar Anabledd ac amlygwyd nifer o faterion.

Mae Anabledd Cymru ac aelodau eraill o'r grŵp llywio wedi bod yn galw am ymgorffori yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, a fydd yn rhoi statws tebyg i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn iddo. Mae Helen Mary-Jones AC yn edrych ar sut y gellir ymgorffori hawliau dynol yng Nghymru.

Nododd Rhian fod datgysylltiad rhwng egwyddorion a dyheadau Llywodraeth Cymru o ran gwella byw'n annibynnol i bobl anabl a realiti gwirioneddol cael mynediad at wasanaethau a sicrhau eu hawliau.

Pwysleisiodd Rhian pa mor bwysig yw hi bod y Grŵp Trawsbleidiol ar Anableddau yn cyflwyno ymateb trylwyr i’r ymgynghoriad, gyda’r nod o gryfhau’r Fframwaith newydd i sicrhau ei fod yn rhoi hwb i hawliau pobl anabl yng Nghymru.

Tynnodd MI sylw at rai o ganfyddiadau'r astudiaeth yn seiliedig ar y Fframwaith Drafft ar gyfer Gweithredu ar Anabledd a luniwyd gan Alison Tarrant o Brifysgol Caerdydd. Roedd y rhain yn cynnwys diffyg 'Eiriolaeth', a gafodd ei nodi’n flaenorol yn Fframwaith 2013 fel un o'r blaenoriaethau mwyaf. Yn ogystal, lluniwyd Fframwaith 2013 yn seiliedig ar gyfres o flaenoriaethau a nodwyd gan bobl anabl. Mae’r pwyslais ar flaenoriaethau ac arbenigedd pobl anabl wedi diflannu. Awgrymodd MI y dylid ystyried y rhain wrth gyflwyno ateb.

**Nathan Davies - Grant Byw'n Annibynnol Cymru**

Rhannodd Nathan fideo gyda'r grŵp dan y teitl 'Save WILG Campaign'. Roedd y fideo’n tynnu sylw at y materion sy'n wynebu mwy na 1300 o dderbynwyr y grant. Ar 31 Mawrth, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dod â Grant Byw'n Annibynnol Cymru i ben, a throsglwyddo’r cronfeydd i’r Awdurdodau Lleol. Ni fydd y cronfeydd yn cael eu neilltuo. Mae'r fideo’n rhoi cipolwg ar gyflwr Nathan, sef Friedreich Ataxia, afiechyd cynyddol sy’n effeithio ar y system nerfol. Er mwyn bod yn aelod cynhyrchiol o gymdeithas, dywed Nathan fod angen cymorth a chefnogaeth cynorthwywyr personol arno a ariennir gan y Grant. Heb y grant, bydd ei ofal yn gostwng o 86.5 awr yr wythnos i 31 awr yr wythnos. Yn ôl ym mis Ebrill 2018, yng Nghynhadledd Plaid Lafur Cymru, pasiwyd cynnig i achub y Grant. Fodd bynnag, ni chymerwyd camau i weithredu ar hyn hyd yma. Mae'r ymgyrch wedi cael cefnogaeth o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol ond mae Gweinidogion Cymru a rhai gweision sifil yn dal i wrthod gwrando ar y dystiolaeth a gasglwyd. Mae Nathan yn bryderus iawn nad yw'r arian sy'n cael ei roi i Awdurdodau Lleol wedi'i neilltuo.

Mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam wedi cydnabod cryfder a gwaith ymgyrchu Nathan trwy ei wneud yn gymrawd anrhydeddus.

Er mwyn tynnu sylw at y materion sy’n ymwneud â’r Grant, mae Nathan yn cynnal cyfres o ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol i annog penderfyniad cadarnhaol.

Gofynnodd Mark Isherwood AC am gwestiynau a sylwadau.

**Cwestiynau / sylwadau:**

O ran y Grant, hysbysodd Rhian y grŵp fod Nathan a'r BBC wedi gwneud cais Rhyddid Gwybodaeth. Daeth i'r amlwg mai dim ond dau berson ym mhob tri sydd wedi cael eu hasesu ac er bod rhai wedi cynnal eu pecynnau a rhai pecynnau wedi’u cynyddu, torrwyd oriau nifer sylweddol ohonynt. Roedd oddeutu 17 achos o gleientiaid yn cymryd camau cyfreithiol yn erbyn eu hawdurdod lleol. Wrth ymateb i ganlyniad y cais Rhyddid Gwybodaeth, cytunodd Huw Irranca-Davies AC i ymchwilio i’r mater ymhellach i bennu a oedd y materion yn ymwneud â Wrecsam yn unig neu a oedd y broblem yn fwy eang. Awgrymodd Rhian y gallai’r Grŵp ysgrifennu at Julie Morgan AC, y Gweinidog newydd, i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

Soniwyd am bwysigrwydd y ffaith fod angen gwell mynediad at gyfreithwyr ar bobl anabl.

Dywedodd Mark Isherwood AC y bydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ymladd achos prawf o bryd i'w gilydd i sefydlu cynsail. Gallai'r Grŵp Trawsbleidiol gyflwyno cais pe bai angen profi mater penodol yn y llys. Ychwanegodd nad oes gan Lywodraeth Cymru reolaeth dros Gymorth Cyfreithiol ond mae'n werth tynnu sylw at unrhyw bryderon a gofyn pa gymorth y gallant ei gynnig i gael mynediad gwell at gyngor cyfreithiol.

Nodwyd gwahanol ffynonellau o wasanaethau cyfreithiol a byddant yn cael eu cylchredeg ar ôl y cyfarfod. Hefyd, mae gan Anabledd Cymru ganllaw ar eu gwefan o'r enw 'Know Your Rights, Use Your Rights, Live Your Rights' sy'n cynnig cyngor a gwybodaeth.

Mynegwyd pryderon ynghylch y diffyg cynllunio iawn a’r diffyg gwasanaethau sydd ar gael i’r nifer cynyddol o blant ag anableddau a fydd yn golygu na fydd eu hanghenion yn cael eu diwallu.

Gofynnodd un aelod pam mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â dilyn yr Alban na Gogledd Iwerddon o ran sut maen nhw'n rheoli Grant Byw'n Annibynnol Cymru os oes tystiolaeth ar gael sy’n profi bod y system yn llwyddo yn yr ardaloedd hynny.

Awgrymodd Mark Isherwood AC fod Anabledd Cymru yn cael data gan Disability Scotland i ddangos yr effaith gadarnhaol y mae'r grant wedi'i chael ar y sawl sy’n cael y grant.
Croesawodd y Cadeirydd ragor o sylwadau o’r llawr. Rhoddodd Anabledd Dysgu Cymru ddiweddariad ar eu gwaith. Ym mis Rhagfyr, cynhaliodd Anabledd Dysgu Cymru ei gyfarfod cyntaf o grŵp cynghori’r gweinidog, dan gadeiryddiaeth Gwenda Thomas AC. Y prif ffocws oedd adroddiad 'Paid dal yn ôl' y Comisiynydd Plant, yn ymchwilio i brofiad plant a phobl ifanc o bontio rhwng meysydd polisi amrywiol. Hefyd hysbysodd Martyn yr aelodau fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi bod yn ymgynghori ar ddogfen yn ymwneud â chomisiynu gwasanaethau ac maent yn ystyried cynnal cynhadledd genedlaethol ar y pwnc. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gydag Anabledd Dysgu Cymru i gynnal cynhadledd ar leihau arferion cyfyngol gyda'r Gweinidog Addysg. Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar fin cychwyn darn o waith yn ymwneud â mynediad i lysoedd i gynorthwyo pobl anabl i gymryd rhan lawn yn y system.

Ychwanegodd Rhian fod Anabledd Cymru yn gweithio gyda Chymorth i Fenywod i ddarganfod pa mor hygyrch yw llochesau Lluniwyd arolwg a bydd hwn yn cael ei ddosbarthu. Bydd y canlyniadau'n cael eu casglu ynghyd yn fuan a gofynnwyd a fyddai'n gyfle i gynnal cyfarfod ar y cyd â’r Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant i rannu'r canfyddiadau.

Croesawodd Mark Isherwood AC y syniad o gynnal cyfarfod ar y cyd â’r Grŵp Trawsbleidiol.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

Bydd Zoe Richards yn anfon dyddiad y cyfarfod nesaf, a gynhelir yng Nghaerdydd.

**Camau gweithredu:**

1. Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd i lunio ymateb i ddogfen ymgynghori'r Fframwaith Gweithredu ar Anabledd a gofyn am estyniad i’r dyddiad cau, sef 31 Ionawr.
2. Zoe i rannu'r linc i fideo ymgyrch Nathan Davies â'r aelodau.
3. Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd i ysgrifennu at Julie Morgan i grynhoi’r pryderon a gofyn am ddiweddariad ynghylch y materion a nodwyd yn dilyn y cais Rhyddid Gwybodaeth.
4. Anabledd Cymru i ofyn am ddata gan Disability Scotland i gefnogi’r dystiolaeth ynghylch effaith gadarnhaol y grant ar y rhai yn yr Alban sy’n ei gael.
5. Anfon e-bost yn gofyn am ymatebion i’r ymgynghoriad.
6. Dosbarthu arolwg Cymorth i Fenywod ac Anabledd Cymru.

# Cyfarfod 2.

Cyfarfod ar y cyd o'r Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd a'r Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant

Dydd Mercher 1 Mai

Tŷ Hywel

12pm – 1.30pm

Cadeiriwyd gan Mark Isherwood

Yn bresennol: Elinor Crouch-Puzey, Zoe Richards, Natasha Hirst, Samantha Williams, Miranda Evans, Simon Green, Lizzy Fauvel, Tina Reece, Hilary Watson, Bethan Sayed AC (cyd-gadeirydd), Sarah Keef, Mandi Glover, Vicky Snook, Helen Mary Jones AC, Melissa Wood, Gwendolyn Sterk, Sophie Weeks, Bethan McMinn, Sian Davies, Gauri, Heather Kiltie, Julie Richards, Iwan Williams, Sian Vining, Paul Hossack.

Ymddiheuriadau: Helen Jones AC, Fflur Emlyn, Sara Flay, William Fawcett, Wendy Ashton, Jane Ruthe, Lynne Ryan, Llyr Gruffydd AC, Ann Dann, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol, Shahien Taj OBE, Emmy Chatwer.

Cyflwyniadau

Diben cytunedig y cyfarfod yw lansio'r adroddiad: Cefnogi pobl anabl sy’n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru, cydnabod nad yw’r systemau a’r rhaglenni cyfredol bob amser yn deall bod y risg yn uwch i bobl anabl a chlywed yr argymhellion.

Rhoddodd **Tina Reece**, y Pennaeth Ymgysylltu, gyflwyniad i WWA yng Nghymru gan dynnu sylw at ddeddfwriaeth 2015 sy'n unigryw i Gymru. Mae’n amlinellu bod dyletswydd ar awdurdodau lleol i atal, ac mae hynny’n elfen bwysig o’r ddeddfwriaeth.

Yn dilyn gwaith a wnaed gan Anabledd Cymru a Phrifysgol Caerdydd yn 2011, roedd hwn yn gyfle i ailedrych ar hynny a pharhau â chyfleoedd newydd.

Gwnaeth **Elinor Crouch-Puzey** ein tywys drwy ganfyddiadau allweddol yr adroddiad:

Dyma rai o brif ganfyddiadau’r adroddiad:

- Nid oedd llawer o ddata ar gael ar nifer yr achosion o gam-drin domestig a brofir gan fenywod anabl yng Nghymru. Mae angen data i lywio polisi ac ymarfer cam-drin domestig.
- Teimlai goroeswyr eu bod weithiau'n cael eu hystyried yn anghredadwy wrth chwilio am gymorth gan gyrff statudol ynghylch cam-drin domestig.
- Un o'r themâu a ddaeth i'r amlwg oedd yr anfodlonrwydd ag ymateb yr heddlu wrth roi gwybod am gamdriniaeth. Daeth hyn i'r amlwg yn yr adroddiad yn 2011 hefyd.
- Roedd lefelau anghyson o ymgysylltu a threiddio ynghylch cam-drin gan wasanaethau gofal sylfaenol (hynny yw, meddygon teulu, adrannau damweiniau ac achosion brys) pan fu menywod anabl yn gofyn am gymorth ar gyfer trais yn erbyn menywod.
- Nid oedd digon o wybodaeth hygyrch am gam-drin domestig ar gael mewn amrywiaeth o fformatau.
- Roedd anghysondebau o ran yr ymateb i gam-drin domestig a ddarparwyd gan gyrff statudol.
- Nid oedd llawer o dai hygyrch ar gael, yn ogystal â diffyg llety brys diogel a oedd yn bodloni gofynion mynediad menywod anabl.
- Dim ond 33 y cant o oroeswyr anabl a gafodd eu cyfeirio at wasanaeth arbenigol trais yn erbyn menywod neu a oedd wedi cael mynediad ato.
- Amlygodd darparwyr gwasanaethau fod diffyg capasiti ac adnoddau yn rhwystr allweddol, a oedd yn eu hatal rhag gwneud addasiadau i'r amgylchedd adeiledig i wella hygyrchedd corfforol er budd goroeswyr cam-drin sy'n anabl.
- Er gwaethaf diffyg adnoddau, tynnodd aelodau Cymorth i Ferched Cymru sylw at y camau y maent wedi'u cymryd i sicrhau'r gefnogaeth orau i oroeswyr anabl.

Trafododd **Miranda Evans** yr argymhellion:

Yn seiliedig ar adborth goroeswyr a gwasanaethau arbenigol, mae Anabledd Cymru a Chymorth i Ferched Cymru yn gwneud yr argymhellion allweddol canlynol yn seiliedig ar yr arolwg hwn (mae rhagor o argymhellion ar gael ar ddiwedd yr adroddiad hwn):

- Rydym yn galw am ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau ym mholisi a deddfwriaeth Cymru. Mae'r Confensiwn yn cyfeirio'n benodol at y mathau gwahanol o wahaniaethu y mae menywod anabl yn eu hwynebu ac yn galw am fesurau llywodraethol priodol i sicrhau bod menywod yn datblygu ac yn cael eu dyrchafu a'u grymuso yn llawn (Erthygl 6). Hefyd, mae'n nodi hawl pobl anabl i ryddid rhag camfanteisio, cam-drin ac artaith yn y cartref a'r tu allan iddo (Erthygl 16). Dylid cydnabod y Confensiwn yn llawn a'i weithredu trwy bolisïau a gwasanaethau i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- Dylai asiantaethau ymdrechu i adnabod goroeswyr anabl a'u profiadau o gam-drin mor gynnar â phosibl, trwy ymholi, a sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi i ddeall a gwybod sut i liniaru a lleihau'r pethau penodol sy'n rhwystro pobl anabl rhag datgelu.

- Mae angen i asiantaethau gydnabod y mathau penodol o drais y gall menywod anabl eu profi.
- Dylai gwybodaeth hygyrch am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fod ar gael mewn amrywiaeth o fformatau.
- Dylai ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd sy'n ceisio mynd i'r afael â cham-drin domestig gynnwys pobl anabl ac amrywiaeth ar draws gwahanol fathau o namau mewn gwahanol gymunedau, gan gydnabod nad yw pobl anabl yn grŵp homogenaidd.
- Dylai deunydd cyhoeddusrwydd gynnwys negeseuon sy'n lleddfu ac yn herio mythau sy'n beio'r dioddefwyr
- Dylai asiantaethau gofnodi ac adrodd gwybodaeth am nodweddion goroeswyr a chyflawnwyr yn rheolaidd, fel rhywedd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, ethnigrwydd, statws mewnfudo ac anabledd – i roi sylw i'r hyn y mae angen i asiantaethau ei wneud yn well a sut y dylent addasu i anghenion yn hytrach na disgwyl i bobl addasu iddynt hwy.

Cyflwynodd **goroeswr** fideo o'i phrofiad a siaradodd am sut y defnyddiwyd ei hanabledd yn ei herbyn yng nghyd-destun cam-drin a rheolaeth drwy orfodaeth, fel rheoli ei mynediad at ddyfeisiau cyfathrebu a thanseilio ei chof am ddigwyddiadau trwy awgrymu nad oedd hi'n clywed pethau'n iawn.

Soniodd Samantha Williams am yr angen am addysg gynnar i fenywod sydd ag anabledd dysgu i ddeall perthnasoedd iach. Siaradodd am faterion penodol ynghylch:

- Lefelau dealltwriaeth o ran beth yw perthynas iach
- Methu rheoli eu bywydau eu hunain
- Bod yn agored i niwed ac felly'n cael eu targedu
- Nid oes gwybodaeth hygyrch ar gael
- Nid yw pobl yn eu credu
- Cylchoedd cymdeithasol cyfyngedig

Cwestiynau a sylwadau:

Bellach mae adnodd hawdd ei ddarllen ar gael gan CDAS a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Phobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin.

Gofynnodd Iwan Williams a oes heriau sy'n gyson ym mhob rhan o Gymru neu a oes amrywiadau rhanbarthol.

Atebodd Eli y bu problemau erioed ynglŷn â'r sefyllfa yng nghefn gwlad.

Cwestiynodd Bethan Sayed AC ganlyniadau achos Chris Wade ac a yw'r adroddiad yn ymdrin â'r safbwynt sefydliadol.

Cododd Simon Green y pwynt nad yw llawer o bobl anabl yn gwybod beth yw cam-driniaeth er mwyn rhoi gwybod i rywun amdano.

Cododd Gauri fater pwysig ynghylch rôl addysg gynnar mewn perthnasoedd iach. Gofynnodd Sian Davies sawl un o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg oedd yn bobl ag anabledd dysgu.

**Camau gweithredu**

- Ysgrifennu at y Gweinidog Tai, y Gweinidog Iechyd a'r Phrif Chwip i ofyn am gyfarfodydd.
- Ysgrifennu at bedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu Cymru i ofyn am gyfarfodydd ynghylch ymateb yr heddlu.
- Ysgrifennu at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon a gofyn i'r adroddiad gael ei ystyried yn eitem ar agenda yn y dyfodol.
- Anfon yr adroddiad at bob Aelod Cynulliad a gofyn iddynt ddatblygu'r argymhellion yn eu gwaith.

Unrhyw fater arall

Cafwyd cyflwyniad 5 munud o hyd gan Bethan McMInn am brosiect o'r enw Byd Oshi.

Mae rhagor o fanylion ar gael yma: https://www.oshisworld.org/

Diolchodd Mark i bawb am ddod ac am ddangos eu cefnogaeth i'r adroddiad.

# Cyfarfod 3.

**Cofnodion y**

**Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd**

**a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2019**

**yn y Ganolfan Rheolaeth, Ysgol Busnes Bangor,**

**Ffordd y Coleg, Bangor, Gwynedd LL57 2DG. 11.30am - 1.30pm**

**Cadeiriwyd gan Mark Isherwood AC**

**Yn bresennol:** Mark Isherwood AC, Zoe Richards, Arthur Beechy, Rebecca Phillips, Bill Fawcett, Lowri Wynne Blackmore, Jan Underwood, Martin Davies, Medi Griffiths, Lorna Tate, Tom Hall, Louise McGrath, Katrina Jones a Grace Krause.

**Ymddiheuriadau**: Bethan Sayed AC, Eric Owen (FDF), Helen Mary Jones AC, Wayne Crocker (Mencap Cymru), Llyr Gruffydd AC, Vin West.

**1. Croeso a chyflwyniadau.**

Agorodd MI y cyfarfod a chroesawodd bawb.

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf.**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir.

**Cynigiwyd gan**: Bill Fawcett

**Eiliwyd gan**: Mark Isherwood AC

Cwblhawyd y camau gweithredu.

**3. Cyflwyniad: Prosiect Engage to Change - mynediad i waith ar gyfer pobl ifanc anabl** gan Arthur Beechy, Agoriad Cyf.

Mae Engage to Change yn brosiect ar draws Cymru gyfan sy'n cefnogi pobl rhwng 16 a 25 oed sydd ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth i ennill cyflogaeth. Mae'r prosiect wedi'i ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.

Cynigir hyfforddiant mewn swydd un i un i'r cyfranogwyr, sy’n cefnogi'r person ifanc a'r cyflogwr.

Mae pum partner yn cymryd rhan: Prifysgol Caerdydd, Anabledd Dysgu Cymru, Pobl yn Gyntaf Cymru gyfan, Elite Supported Employment Agency Ltd. (sy’n cyflwyno'r prosiect yn ne Cymru) ac Agoriad Cyf (sy'n cyflwyno'r gwasanaeth yng ngogledd Cymru).

Er bod ganddynt drefniant penodol ar waith gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer cael cymorth Mynediad i Waith, bu rhai heriau, yn enwedig ynghylch caniatâd trydydd partïon, y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, a ffurflenni cais ar-lein Trafnidiaeth Cymru.

Nod y prosiect yw newid polisïau a chreu etifeddiaeth lle mae cyflogaeth pobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth yn cael ei gydnabod ym mholisïau a gweithdrefnau'r llywodraeth.

Ychwanegodd fod problem ar hyn o bryd lle mae pobl yn wyliadwrus ynghylch ymrwymo i fwy nag 16 awr o gyflogaeth oherwydd diffyg eglurder a chysondeb y cyngor a'r arweiniad ar Gredyd Cynhwysol.

Gobaith y prosiect yw annog y sector cyhoeddus i fod yn gyflogwr mwy ystyrlon i bobl anabl. Er mwyn cynorthwyo gyda hyn, gwnaed ymyriadau wedi'u targedu gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Yn dilyn y cyflwyniad, gwahoddwyd aelodau i rannu eu profiadau o drafnidiaeth, Credyd Cynhwysol a materion penodol ynghylch Mynediad i Waith.

**Cafwyd y sylwadau a ganlyn:**

- Nid yr offer a dderbyniwyd trwy Fynediad i Waith oedd yr hyn a gytunwyd. Nododd yr ymgeisydd yn glir bod angen cyfrifiadur ysgafn, cludadwy arno. Yn lle hynny, cafodd liniadur trwm iawn. Hefyd, roedd angen cadair feddygol ar y gweithiwr ond

cafodd gadair weithredol, nad oedd yn addas i'w anghenion.
- Nid yw Mynediad i Waith yn cynnig unrhyw adborth, nac atebion i ymholiadau.
- Dylai'r gweithiwr fod wedi cael hyfforddiant ar gyfer meddalwedd technoleg Dragon. Ni chafodd hyn ei ddarparu. Rhoddwyd gwybod i Mynediad i Waith am y mater, ond ni wnaethant ymateb.

Ychwanegodd ZR fod rhai cyflogwyr mawr yn defnyddio Mynediad i Waith i ddarparu offer i staff nad ydynt yn anabl ar ôl iddynt ddioddef anaf yn y gwaith.

Ychwanegodd AB hefyd fod Ymgynghorwyr Cyflogaeth i Bobl ag Anableddau yng ngogledd Cymru yn canolbwyntio fwy ar yr ochr fewnol, ac yn cefnogi staff yn hytrach na chleientiaid.

Yn ddiweddar, roedd MI wedi cwrdd â Swyddog yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n gyfrifol am yr Ymgyrch 'Hyderus o ran Anabledd' yng ngogledd Cymru ac awgrymodd y gellid gwahodd Swyddog o’r Adran Gwaith a Phensiynau sy'n gyfrifol am yr 'Ymgyrch Hyderus o ran Anabledd' yng Nghymru i ddod i gyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol yn y dyfodol.

Hysbysodd MI y grŵp fod y Grŵp Trawsbleidiol ar Gyflyrau Niwrolegol wedi cael problemau gyda’r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), yn enwedig wrth gyd-gynhyrchu gyda'r trydydd sector. Awgrymodd y dylid cymryd camau dilynol gyda'r Gweinidog perthnasol ar ôl yr etholiad. Awgrymodd hefyd y gellid gwahodd cynrychiolydd o'r Adran Gwaith a Phensiynau i gyfarfod y Grŵp i drafod materion GDPR ac ymholiadau Mynediad i Waith. Teimlai y gallai fod yn werth ymgorffori Remploy, gan fod ganddynt gontract yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer cefnogi pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd tymor hir i gael cyflogaeth.

Dywedodd MI fod Aelodau’r Cynulliad wedi trafod deiseb yn ddiweddar yn galw am hyfforddiant gorfodol i staff y GIG ar anableddau dysgu a/neu awtistiaeth. Ymatebodd Llywodraeth Cymru trwy nodi y byddent yn cyflwyno gofyniad i fyrddau iechyd gyflwyno hyfforddiant mwy generig i godi ymwybyddiaeth o anabledd a chydraddoldeb. Fodd bynnag, pwysleisiodd na all Llywodraeth Cymru ddeddfu ar faterion yn ymwneud ag amodau ffurfiol staff y GIG – dim ond Llywodraeth y DU all arwain ar hyn. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU yn ddiweddar ei bod yn bwrw ymlaen â hyn gyda chefnogaeth pob plaid. Felly, yn y dyfodol, bydd hyfforddiant gorfodol.

Gofynnwyd am eglurder ynghylch y math o hyfforddiant a ddisgwylir gan y gweithwyr. Ymatebodd MI trwy fyfyrio ar ei araith ddiweddar lle gofynnodd yr un cwestiwn. Ychwanegodd fod hyfforddiant yn cael ei ddefnyddio'n aml fel digwyddiad yn hytrach na phroses. Mae angen iddo ddod yn rhan gynhenid o'r ffordd y mae'r sefydliad yn gweithio.

Gofynnodd aelod a yw Prifysgol yn gorff cyhoeddus.

Ychwanegodd MI fod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, sy'n dod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn berthnasol i bob corff o dan y Ddeddf honno. Mae cyfleusterau addysg yn gynwysedig, ond nid ydynt yn cael eu cyfrif yn uniongyrchol o dan ddyletswydd awdurdod lleol, mae'n rhaid iddyn nhw gael eu cyfleusterau eu hunain.

Dywedodd MI ei fod yn cael nifer sylweddol o achosion o etholwyr yn cael profiad o gyrff cyhoeddus nad ydynt yn gwybod unrhyw beth am y ddeddfwriaeth. Gwnaeth MI waith dilynol ar y mater hwn gyda Jane Hutt AC a gadarnhaodd fod materion o'r fath yn fater i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Felly, awgrymodd MI y dylid cyfeirio materion o'r fath at y Comisiwn.

O ran y Credyd Cynhwysol a grybwyllwyd uchod, rhoddodd MI wybod i'r grŵp fod y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi gwneud darn o waith ar les yn ystyried a ddylid datganoli lles i Gymru yn ei gyfanrwydd, yn rhannol neu ddim o gwbl. Cyhoeddwyd yr adroddiad ac mae ar gael ar-lein.

Ymatebodd MI i sylwadau AB ynghylch Ymgynghorwyr Cyflogaeth i Bobl ag Anableddau yng ngogledd Cymru. Gofynnodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Awtistiaeth am estyniad i raglen yr Adran Gwaith a Phensiynau a oedd yn cyflogi Timau Cymorth Cymunedol rhanbarthol sydd â phrofiadau byw. Fodd bynnag, yn hytrach na rhoi rhagor o gyllid, cytunodd yr Adran Gwaith a Phensiynau i adfer yr Ymgynghorwyr hyn i'r Ganolfan Byd Gwaith. Roedd gan MI ddiddordeb i glywed nad oedd hyn yn digwydd yng ngogledd Cymru. Awgrymodd y dylid cysylltu â Phrif Weithredwr yr Adran Gwaith a Phensiynau yng ngogledd a chanolbarth Cymru i holi am y mater.

Yn dilyn ymlaen o hyn, mynegwyd pryderon am y broses Taliad Annibyniaeth

Bersonol, gyda rhai hanesion yn cael eu rhannu gan y grŵp. Awgrymodd MI y dylai'r Grŵp Trawsbleidiol gymryd camau dilynol gyda Gweinidog perthnasol y DU pan fydd yn cael ei benodi ar ôl Etholiad Cyffredinol y DU.

**4. Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2020 i 2024 - Trosolwg o'r ymgynghoriad**

Ar ran Anabledd Cymru, hysbysodd ZR y grŵp bod Llywodraeth Cymru wrthi'n ysgrifennu'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol ar hyn o bryd. Bob pedair blynedd, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod eu Deddf Cydraddoldeb yn gweithio i bobl. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cyhoeddi adroddiad bob pedair blynedd o'r enw 'A yw Cymru'n decach?' sydd wedi llywio Amcanion Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd maent yn y broses ymgynghori a gofynnwyd i'r grŵp gyflwyno sylwadau i Zoe. Y dyddiad cau yw 19 Tachwedd, ond gallai gael ei ymestyn.

Gofynnodd MI a yw'r ddogfen yn sôn am y Model Cymdeithasol o Anabledd neu Siarter y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Hawliau Pobl ag Anableddau. Cadarnhaodd ZR eu bod yn y brif ddogfen. Fodd bynnag, bydd yn sicrhau y cyfeirir atynt yn yr ymateb.

Cytunodd ZR i anfon copi o'r ymateb i'r grŵp drwy e-bost i gael sylwadau a gwneud cais am estyniad.

**5. Y wybodaeth ddiweddaraf gan y sefydliadau sy'n bresennol**

**Taliadau uniongyrchol**

Gofynnodd Vin West a ellid darllen diweddariad i'r grŵp, gan nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod:

Yng Ngwynedd, maent wedi cwblhau'r Polisi Taliadau Uniongyrchol a'r ddogfen Arweiniad i Staff o'r diwedd. Treuliwyd mwy na thair blynedd yn trafod, gan gynnwys cyfnodau hir o aros am ymatebion swyddogol. Maent wedi dyfalbarhau ac maent o'r farn bod y polisi a'r arweiniad terfynol yn cyd-fynd yn dda â Deddf Gwasanaethau

Cymdeithasol 2014. Mae'r dogfennau wedi'u cadw'n gyfrinachol hyd yn hyn. Mae Vin yn hapus i'w rhannu gydag unrhyw un a fyddai'n eu cael yn ddefnyddiol wrth roi diweddariad i'w awdurdod lleol ei hun. Mae dau werthusiad o lwyddiannau Deddf 2014 yn mynd rhagddynt, sef un gan yr Athro Mark Llewelyn o Brifysgol Abertawe a'r llall a fydd yn casglu straeon personol am brofiadau pobl o gymorth cymdeithasol. Bydd rheithgor dinasyddion yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf y flwyddyn nesaf.

Ychwanegodd Vin ei fod hefyd yn gysylltiedig â rhaglen 'Eye on Wales' ar Radio Wales, sy'n ymchwilio i faint y mae cymorth cymdeithasol, yn enwedig taliadau uniongyrchol, wedi cynyddu ers y Ddeddf. Darganfuwyd arferion da a drwg, ond hefyd gwelwyd gwahaniaeth rhwng gwahanol awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n peri pryder. Mae'n bosibl bod gwahaniaeth o hyd at ddeg gwaith yng nghyfran y bobl anabl sy'n cael taliadau uniongyrchol. Mae'r Dirprwy Weinidog Julie Morgan wedi cael ei briffio ar hyn.

Hefyd, estynodd longyfarchiadau i MI gan mai ef oedd yr unig aelod yn y ddadl ddiweddar ar y Bathodyn Glas yn y Cynulliad a ddefnyddiodd iaith y model cymdeithasol yn gyson. Mae wedi ysgrifennu at Ken Skates AC i gwyno am y ffaith ei fod ef ac Aelodau eraill y Cynulliad yn parhau gyda'u defnydd sarhaus o iaith y model meddygol sydd wedi cael effaith uniongyrchol ar y broses benderfynu yn y Llywodraeth.

**Anabledd Dysgu Cymru**

Mae Anabledd Dysgu Cymru newydd lansio ei strategaeth newydd.

**Triniaethau'r GIG ar gyfer cyn bersonél milwrol**

Mynegwyd pryder bod rhai o driniaethau'r GIG ar gael yn Lloegr ond nid yng Nghymru. Canolbwyntiwyd yn benodol ar driniaethau'r GIG ar gyfer cyn bersonél milwrol. Awgrymodd MI y gallai'r Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gael ymateb. Ychwanegodd fod pob corff cyhoeddus wedi ymuno â Chyfamod y Lluoedd Arfog, ond mae bylchau yn dal i fod.

**Treth Ystafell Wely**

Dywedodd aelod o'r grŵp fod dyfarniad yn y Goruchaf Lys wedi dyfarnu bod y dreth ystafell wely a osodwyd ar bobl anabl yn anghyfreithlon.

**Budd-daliadau anabledd**

Mynegwyd pryderon ynghylch y pwysau y mae'r system fudd-daliadau'n ei roi ar bobl anabl, sydd wedi arwain at rai pobl yn cyflawni hunanladdiad. Rhoddodd MI wybod i'r grŵp am elusen '2 Wish Upon a Star' sy'n cynnig cymorth profedigaeth i deuluoedd sy'n colli plentyn neu berson ifanc dan 25 oed yn sydyn ac yn annisgwyl. Maen nhw wedi cyflwyno deiseb sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ar gyfer gwasanaeth yng Nghymru.

**Taliadau gwasanaeth ar gyfer addasiadau trydanol yn y cartref**

Soniwyd am achos o godi tâl gwasanaeth ar berson anabl sy'n byw mewn tŷ cymdeithasol, am lifft grisiau. Awgrymodd MI y gallai'r grŵp fynd ar drywydd y mater gyda Julie James AC, y Gweinidog Tai

**6. Y cyfarfod nesaf**

I'w gadarnhau.

Gofynnodd aelodau'r grŵp a ellid trefnu cysylltiad byw rhwng cyfarfodydd a gynhelir yng Nghaerdydd a gogledd Cymru. Bydd ZR yn ymchwilio i hyn.

**Camau gweithredu:**

**Cam 1**: ZR i ddosbarthu gwybodaeth am y prosiect Engage to Change.

**Cam 2**: Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd i wahodd Swyddog yr Adran Gwaith a Phensiynau yng ngogledd Cymru sy'n gyfrifol am yr Ymgyrch Hyderus o ran Anabledd i ddod i un o gyfarfodydd y Grŵp.

**Cam 3**: Y Grŵp Trawsbleidiol i wahodd cynrychiolydd o'r Adran Gwaith a Phensiynau i gyfarfod y Grŵp i drafod materion GDPR ac ymateb i ymholiadau ynghylch Mynediad i Waith.

**Cam 4:** Y Grŵp Trawsbleidiol i ysgrifennu at Brif Weithredwr yr Adran Gwaith a Phensiynau yng ngogledd a chanolbarth Cymru i bennu beth yw rôl yr Ymgynghorwyr Cyflogaeth i Bobl ag Anableddau yng ngogledd Cymru.

**Cam 5**: ZR i ddosbarthu ymateb y Grŵp Trawsbleidiol i ymgynghoriad Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 i aelodau am sylwadau a chyfraniadau a sicrhau bod yr ymateb yn cynnwys cyfeiriad at y Model Cymdeithasol o Anabledd a Siarter y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Hawliau Pobl ag Anableddau.

**Cam 6**: ZR i wneud cais i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i ymgynghoriad Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2020-2024.

**Cam 7**: ZR i ymchwilio i gysylltiad byw mewn cyfarfodydd.

**Cam 8**: Y Grŵp Trawsbleidiol i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn tynnu sylw at y ffaith bod rhai mathau o driniaeth feddygol ar gael yn Lloegr ond nid yng Nghymru ac i'r gwrthwyneb, gan ganolbwyntio'n benodol ar driniaeth ar gyfer cyn bersonél milwrol.

**Cam 9**: Y Grŵp Trawsbleidiol i ysgrifennu at Julie James AC ynghylch codi tâl gwasanaeth ar bobl anabl sy'n byw mewn tai cymdeithasol am addasiadau trydanol.

## 3. Lobïwyr proffesiynol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau y mae'r Grŵp wedi cyfarfod â hwy yn ystod y flwyddyn flaenorol.

[Rhowch enw'r lobïwr/sefydliad/elusennau fel a ganlyn e.e.]

**Rhian Davies, Anabledd Cymru**

**Nathan Davies, ymgyrch Grant Byw'n Annibynnol Cymru**

**Tina Reece, Cymorth i Ferched Cymru**

**Arthur Beechey, Agoriad Cyf**

# Datganiad Ariannol Blynyddol.

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd

## Adroddiad ar gyllid ar gyfer 2019

Cafodd Grŵp Cyfeirio Anabledd Cymru, sy'n cynnwys **Cyngor Cymru i Bobl Fyddar; Anabledd Cymru; Cyngor Cymru i'r Deillion; Mind Cymru; Anabledd Dysgu Cymru**, Gronfa Adeiladu Capasiti Partneriaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector o £3,500 ar gyfer y cyfnod hwn. Mae'r grant yn cefnogi cyrff cysylltiedig y Grŵp Cyfeirio i gyfarfod ac adrodd ar nifer o ffrydiau gwaith, gan gynnwys gwaith y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd. Mae'r Grŵp cyfeirio'n cwrdd yn rheolaidd ac yn gosod yr agenda ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol. Cafodd y Grŵp Trawsbleidiol dri chyfarfod yn ystod y cyfnod hwn.

**Gwariant y Grŵp Trawsbleidiol:**

| | |
|---|---|
| Arlwyo | £840.30 |
| Costau lleoliad | £243.00 |
| Cyfanswm | £1,083.30 |

Cafodd y gwariant hwn ei gwmpasu gan bob un o'r pum aelod o'r Grŵp Cyfeirio o'u Cronfa Adeiladu Capasiti a ddyrannwyd.

**Cyfraniadau o fath arall:**

| | |
|---|---|
| Gwasanaeth cofnodi a ddarparwyd gan Gyngor Cymru i'r Deillion | £575.00 |
| Cymorth ysgrifenyddiaeth a ddarparwyd gan Anabledd Dysgu Cymru | £1,480.00 |
| Cyfanswm | £2,055.00 |